Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
2/2025

DYDDIAD CYHOEDDI:
16/01/2025

# Arolwg o agweddau cyhoeddus tuag at y dreth gyngor 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83715-123-3

**Arolwg o agweddau cyhoeddus tuag at y dreth gyngor 2024**

Louisa Smith (Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Smith, L. (2025). Arolwg o agweddau cyhoeddus tuag at y dreth gyngor 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 2/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-y-dreth-gyngor-2024

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd, ac nid i Lywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Louisa Smith
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

**Tabl Cynnwys**

Tabl Cynnwys ........ 1
Rhestr o dablau ........ 2
Rhestr o ffigurau ........ 3
1. Cefndir ........ 5
2. Methodoleg ........ 7
3. Canfyddiadau ........ 8
4. Casgliadau ........ 46
Atodiad A: Methodoleg ........ 48

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor? ..... 8

Tabl 2: Pa ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn? ..... 10

Tabl 3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? ..... 15

Tabl 4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 26

Tabl 5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 30

Tabl 6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 32

Tabl 7: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 31

Tabl 8: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy isel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 33

Tabl 9: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 36

Tabl 10: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? ..... 35

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Beth yw eich band treth gyngor? ....................................................................9
Ffigur 2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor? ....................................................................10
Ffigur 3: Sut mae eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor? ....................................................................11
Ffigur 4: Faint o dreth gyngor mae eich aelwyd yn ei thalu y mis?....................................................................12
Ffigur 5: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? .............13
Ffigur 6: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? Yn ôl blwyddyn (2022-2024)....................................................................14
Ffigur 7: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl blwyddyn (2022-2024)....................................................................16
Ffigur 8: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor....................................................................17
Ffigur 9: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor....................................................................21
Ffigur 10: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?....................................................................25
Ffigur 11: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) y tri phrif ymateb i Pam ydych chi'n dweud hyn?....27
Ffigur 12: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?........................31
Ffigur 13: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu? ....................................................................31
Ffigur 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol? ....................................................................34
Ffigur 15: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?..................................35
Ffigur 16: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg)....................................................................38
Ffigur 17: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1).............39
Ffigur 18: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 6) .......39
Ffigur 19: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol)..........................41
Ffigur 20: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol' .......................42
Ffigur 21: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor? .....................................43

Ffigur 22: Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall? ..........................................45

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen ymchwil i lywio'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys ymchwil academaidd, gwaith dadansoddi mewnol gan y llywodraeth, casglu data gweinyddol ar raddfa fawr a dadansoddi canlyniad ymgynghoriadau cyhoeddus, yn ogystal â gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad cyhoeddus, yn ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar ystod o bynciau ond a oedd yn canolbwyntio ar ailbrisio eiddo a diwygiadau posibl i'r system. Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cam 1 rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022 a chynhaliwyd Ymgynghoriad Cam 2 rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024. Mae crynodebau o'r ymatebion ar gyfer y ddau ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi (Cam 1 a Cham 2). Ceir rhestr o'r dystiolaeth a'r gwaith ymchwil hyd yma ar wefan Llywodraeth Cymru: Tystiolaeth ac ymchwil ar y Dreth Gyngor ac ardrethi annomestig.

1.2 Mae dealltwriaeth y cyhoedd o systemau cyllid yn y dyfodol a'u parodrwydd i'w derbyn yn hanfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei nodau, ond mae ymchwil flaenorol wedi nodi nad yw lefelau ymwybyddiaeth o drethi lleol nac agweddau tuag atynt yn glir ac mai yn anaml y cânt eu mesur. Am y rheswm hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau ychwanegol am agweddau tuag at y dreth gyngor yn ystod camau mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 o Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd), gyda gwaith dadansoddi yn cael ei wneud yn fewnol gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Cyhoeddwyd adroddiadau yn cyflwyno'r canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2022 (Mack ac Owens, 2022) a mis Medi 2023 (Tyler ac Owens, 2023). Er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn agweddau at y dreth gyngor yng Nghymru ers mis Mawrth 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres bellach o gwestiynau yng ngham mis Mawrth 2024 yr arolwg.

1.3 Ym mis Gorffennaf 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad ychwanegol (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.) i gymharu canlyniadau camau Mawrth 2022, 2023 a 2024 o Arolwg Omnibws Cymru i archwilio unrhyw wahaniaethau mewn ymatebion cyfranogwyr i gwestiynau rhwng blynyddoedd. Diben hyn yw sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o agweddau pobl tuag at y dreth gyngor yng Nghymru i fonitro effaith bosibl diwygio'r dreth gyngor.

1.4 Diben yr ymchwil hon yw ystyried canfyddiadau'r cyhoedd o degwch y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys dyluniad y dreth a sut mae'n cael ei gweinyddu yn ogystal â'r ffordd y caiff ei defnyddio a'i buddsoddi mewn cymunedau. Mae hefyd yn ystyried y gydberthynas rhwng y lefel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dreth gyngor a chanfyddiadau o ran ei thegwch a chasglu barn ynghylch a ddylid diwygio'r dreth yn y dyfodol. Roedd cyfres ychwanegol o gwestiynau a gynhwyswyd yn arolygon 2023 a 2024 yn edrych ar y ffordd y mae pobl yn cael gwybodaeth am y dreth gyngor.

1.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg hwn ac yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o dan y themâu canlynol:

- Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor
- Gwybodaeth ac agweddau tuag at system bresennol y dreth gyngor
- Agweddau tuag at newid
- Cael gwybodaeth am y dreth gyngor

## 2. Methodoleg

### Yr Arolwg

2.1 Mae Arolwg Omnibws Cymru yn cynnwys cyfweliadau â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, o leiaf. Gwnaed gwaith maes ar gyfer cam mis Mawrth 2024 o Arolwg Omnibws Cymru rhwng 26 Chwefror a 17 Mawrth 2024. Cwblhawyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau.

2.2 Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint, sef meddalwedd a ddefnyddir mewn ymchwil seiliedig ar arolygon digidol er mwyn casglu gwybodaeth gan nifer fawr o ymatebwyr. Cyfluniwyd yr arolygon ar-lein i'w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen a ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd.

2.3 Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data yn y dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau. Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth. Pan nodir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, golyga hyn fod y debygoliaeth o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth.

2.4 Pan gaiff data arolwg eu profi i weld a ydynt yn ystadegol arwyddocaol, tybir bod y sampl a geir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio'r dull samplu cwota cyfrannol. A bod yn fanwl gywir, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu hwn. Felly, mae gwahaniaethau ‘arwyddocaol’ sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder.

2.5 Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, ynghyd â diffiniadau o'r newidynnau demograffig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Ceir gwybodaeth am y cwestiynau a gomisiynwyd ar gyfer cam mis Mawrth 2024 o Arolwg Omnibws Cymru yn Atodiad B.

# 3. Canfyddiadau

### Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor

3.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau cychwynnol i nodi a oedd y cyfranogwr yn talu'r dreth gyngor ai peidio. Roedd hyn yn llywio'r broses o gyfeirio ymatebwyr at gwestiynau dilynol yr arolwg er mwyn sicrhau mai dim ond cwestiynau a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau a fyddai'n cael eu gofyn i'r cyfranogwyr.

3.2 Nododd tua naw o bob 10 ymatebydd (91 y cant) eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor. O'r ffigur hwn, nododd tua hanner yr ymatebwyr (47 y cant) fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am dalu'r dreth gyngor a nododd 45 y cant fod ganddynt gyd-gydraddoldeb am dalu'r dreth gyngor. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (8 y cant) nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am fod rhywun arall yn y cartref yn talu'r dreth gyngor.

3.3 O'r 85 o ymatebwyr a nododd nad oeddent yn talu'r dreth gyngor, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd eu bod ar incwm isel ac yn cael y gostyngiad llawn yn Dreth Gyngor (66 y cant) (Tabl 1).

**Tabl 1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor?**

| | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor | 66 |
| Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyrwyr | 19 |
| **Atebion eraill a roddwyd gan lai na 10 ymatebydd** | |
| Mae pob aelod o'r aelwyd yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed | 3 |
| Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 oed | 1 |
| *Ddim yn gwybod* | 8 |
| *Arall* | 5 |


Sylfaen: 85 o ymatebwyr

3.4 Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am faint o dreth roeddent yn ei thalu i'r cyfranogwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo yng Nghymru ei osod yn un o naw band yn seiliedig ar werthoedd eiddo ac amodau'r farchnad dai ar 1 Ebrill 2003. Band A yw'r band isaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth hyd at £44,000 a Band I yw'r band uchaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth mwy na £424,000.

3.5 Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd Band D (23 y cant), ac yna Band C (15 y cant).[1] Nododd un o bob pum ymatebydd (20 y cant) nad oeddent yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent (Ffigur 1).

3.6 Ers 2022, y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yw Band D (2022 25 y cant; 2023 25 y cant a 2024 23 y cant). Y band lleiaf cyffredin a nodwyd yw Band I (2022 0 y cant; 2023 1 y cant a 2024 1 y cant).

**Ffigur 1: Beth yw eich band treth gyngor?**





Sylfaen: 915 o ymatebwyr

3.7 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau yn eu bil treth gyngor. Nododd tua dau o bob tri ymatebydd (69 y cant) nad oeddent yn eu cael, sy'n awgrymu eu bod yn talu bil llawn heb ei newid sy'n seiliedig ar fand eu heiddo. Nid oedd cyfran fach (6 y cant) o'r ymatebwyr yn siŵr a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (26 y cant) eu bod yn cael un disgownt, esemptiad neu ostyngiad neu fwy (Ffigur 2).

[1] Cyfran yr anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl band a blwyddyn (y cant) (StatsCymru) Mae data StatsCymru yn awgrymu, ym mlwyddyn ariannol 2024-25, mai Band C yw'r band mwyaf cyffredin (21.8 y cant), ac yna Band B (20.7 y cant). Gellid priodoli dosbarthiad gwahanol y bandiau yn y sampl hon i'r ffaith mai arolwg o unigolion yw hwn yn hytrach nag aelwydydd a'r posibilrwydd bod ymatebwyr wedi nodi'r band anghywir. Nid oedd methodoleg yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr wirio eu hatebion drwy gyfeirio, er enghraifft, at fil treth gyngor diweddar. Gan nad oedd 16 y cant o'r ymatebwyr yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent, ni ellir diystyru'r posibilrwydd bod rhai atebion yn anghywir.

**Ffigur 2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?**




Sylfaen: 915 o ymatebwyr

3.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn cael disgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau, beth roeddent yn ei gael. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu ymateb testun rhydd a chafodd ymatebion tebyg eu grwpio ynghyd. Y disgownt mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y disgownt person sengl (52 y cant) (Tabl 2).

**Tabl 2: Pa ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?**


| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Disgownt Person Sengl | 52 |
| Budd-dal/Gostyngiad y Dreth Gyngor | 9 |
| Di-waith/Yn cael Credyd Cynhwysol | 3 |
| *Arall* | 14 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Disgownt Anabledd/Taliad Annibyniaeth Personol | |
| Gostyngiad incwm isel | |
| Yn cael budd-daliadau (heb eu nodi) | |

Sylfaen: 233 o ymatebwyr

Sylwer: Nid yw pob un o'r atebion a roddwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â disgownt, esemptiad neu ostyngiad presennol.

3.9 Gellir talu'r dreth gyngor yn wythnosol, yn fisol, dros 10 neu 12 mis neu mewn cyfandaliad blynyddol. Nododd oddeutu tri o bob pump o'r ymatebwyr (58 y cant) eu bod yn talu eu bil treth gyngor mewn 10 rhandaliad misol, gydag oddeutu traean (30 y cant) yn talu mewn 12 o randaliadau misol. Roedd yn llawer llai cyffredin i ymatebwyr dalu'n wythnosol neu'n flynyddol (2 y cant a 6 y cant, yn y drefn honno). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr (4 y cant) yn gwybod sut roeddent yn talu'r dreth gyngor (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Sut mae eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor?**





Sylfaen: 915 o ymatebwyr

3.10 Yn ogystal â gofyn pa mor aml roeddent yn gwneud taliadau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr faint roeddent yn ei dalu. Cafodd yr ymatebion eu dosbarthu i ystodau gwerth. O'r 14 o ymatebwyr a oedd yn talu'n wythnosol, roedd pedwar yn talu rhwng £1 a £30, roedd tri yn talu rhwng £31 a £50 ac roedd tri yn talu mwy na £50. O'r rhai a oedd yn talu'n fisol, yr ystod gwerthoedd fwyaf cyffredin oedd rhwng £101 a £150 y mis (31 y cant) (Ffigur 4).[2] O'r 55 o ymatebwyr a oedd yn talu cyfandaliad blynyddol, roedd dau yn talu £100 neu lai, roedd wyth yn talu rhwng £101 a £1,000, roedd 20 yn talu rhwng £1,001 a £2,000, roedd wyth yn talu rhwng £2,001 a £3,000 ac roedd pedwar yn talu mwy na £3,000.

[2] Mae canlyniadau'r ateb hwn yn cyfuno atebion gan y rhai sy'n talu mewn 10 a 12 rhandaliad misol, a fydd yn dylanwadu ar y gyfradd fisol.

**Ffigur 4: Faint o dreth gyngor mae eich aelwyd yn ei thalu y mis?**




Sylfaen: 806 o ymatebwyr

Sylwer: Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys ymatebion gan gyfranogwyr sy'n talu mewn 10 neu 12 rhandaliad misol, a fydd yn dylanwadu ar eu cyfradd fisol.


### Gwybodaeth am system bresennol y dreth gyngor ac agweddau tuag ati

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani. Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff, gwasanaethau brys a phriffyrdd.

3.11 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau i fesur lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth o system y dreth gyngor a chanfyddiadau o degwch y system honno.

3.12 Gofynnwyd i bob ymatebydd faint roedd yn ei wybod am y dreth gyngor. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod yn gwybod eithaf tipyn am system y dreth gyngor (43 y cant) a'r rhai nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani (44 y cant). Nododd cyfran fach o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer iawn am y dreth gyngor (6 y cant) neu nad oeddent yn gwybod dim byd o gwbl (6 y cant) (Ffigur 5).

**Ffigur 5: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

3.13 Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng ngwybodaeth yr ymatebwyr am y dreth gyngor ôl oedran, statws gweithio a deiliadaeth tai.

3.14 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod llawer iawn neu eithaf tipyn am y dreth gyngor:

- Yn 55+ oed (57 y cant, o gymharu â 45 y cant o'r rhai 35-54 oed a 42 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Wedi ymddeol (56 y cant, o gymharu â 49 y cant o gyflogeion amser llawn, 43 y cant o gyflogeion rhan-amser, 30 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig a 31 y cant o fyfyrwyr)
- Yn berchenogion eiddo (53 y cant, o gymharu â 45 y cant o rentwyr cymdeithasol a 44 y cant o rentwyr preifat)


3.15 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y dreth gyngor, os o gwbl:

- Yn 16-34 oed (55 y cant, o gymharu â 42 y cant o'r rhai 55+ oed)

- Yn fyfyrwyr (62 y cant, o gymharu â 51 y cant o gyflogeion amser llawn, 56 y cant o gyflogeion rhan-amser, 56 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig a 44 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol)
- Yn rhentwyr cymdeithasol ac yn rhentwyr preifat (52 y cant a 55 y cant yn y drefn honno, o gymharu â 47 y cant o berchenogion eiddo)

3.16 Er nad yw'n wahaniaeth ystadegol arwyddocaol, ymatebion arolwg 2024 oedd y cyntaf lle nododd mwy o ymatebwyr eu bod yn gwybod fawr ddim am y dreth gyngor (44 y cant) na'r rhai a nododd eu bod yn gwybod eithaf tipyn amdani (43 y cant). Mae Ffigur 6 yn dangos cymhariaeth o'r ymatebion ers lansio'r arolwg yn 2022.

**Ffigur 6: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? Yn ôl blwyddyn (2022-2024)**




Sylfaen: 3000 o ymatebwyr

3.17 Er mwyn mesur lefelau dealltwriaeth o'r ffordd mae'r dreth gyngor yn cael ei defnyddio, gofynnwyd i bob cyfranogwr enwi tri gwasanaeth a ariennir gan y dreth gyngor. Y gwasanaeth a enwyd amlaf oedd biniau neu sbwriel (50 y cant) ac yna yr heddlu (42 y cant) a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd (31 y cant) (Tabl 3).


3.18 Ers 2022, mae'r ymatebion hyn wedi bod yn gyson ymhlith y tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwir (Ffigur 7).

**Tabl 3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Biniau/casglu sbwriel | 50 |
| Yr Heddlu | 42 |
| Ffyrdd/cynnal a chadw ffyrdd | 31 |
| Addysg/ysgolion | 19 |
| Goleuadau stryd/goleuadau | 14 |
| Cyngor/cynghorwyr/llywodraeth | 7 |
| Gwastraff/casglu gwastraff/rheoli gwastraff | 12 |
| Gofal cymdeithasol/gwasanaethau cymdeithasol | 7 |
| Llyfrgelloedd | 9 |
| Ailgylchu | 5 |
| Parciau | 4 |
| Tân/gwasanaethau tân | 9 |
| Glanhau strydoedd | 6 |
| *Eraill* | 4 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Gwasanaethau/cyfleusterau hamdden | |
| Iechyd/gwasanaethau iechyd/y GIG | |
| Tai/cynnal a chadw tai | |

Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

**Ffigur 7: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl blwyddyn (2022-2024)**





Sylfaen: 3000 o ymatebwyr

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor, eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

3.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor.

- Mae talu'r dreth gyngor yn broses syml.
- Dydw i ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor.
- Rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael.
- Mae'n anodd deall fy mil treth gyngor.
- Mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref.

**Ffigur 8: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 915 o ymatebwyr

Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno'.

3.20 Fel y dangosir yn Ffigur 8, roedd wyth o bob 10 ymatebydd (82 y cant) yn cytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws gweithio, deiliadaeth a statws anabledd.

3.21 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml:

- Yn berchenogion eiddo (84 y cant, o gymharu â 66 y cant o rentwyr cymdeithasol, 40 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn eiddo rhanberchnogaeth ac 16 y cant o rentwyr preifat)
- Heb anabledd (84 y cant, o'i gymharu ag 84 y cant o'r ymatebwyr â salwch cyfyngol, problem iechyd neu anabledd)

3.22 Roedd ymatebwyr a oedd yn llai tebygol o gytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml:

- Yn 16-34 oed (69 y cant, o gymharu ag 85 y cant o'r rhai 35-54 oed ac 87 y cant o'r rhai 55 oed a throsodd)

- Yn ddi-waith (63 y cant), neu'n fyfyrwyr (45 y cant) o'i gymharu â phob categori arall

3.23 Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (71 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, deiliadaeth a statws gweithio.

3.24 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor:

- Yn 16-34 oed (40 y cant, o gymharu â 28 y cant o'r rhai 35-54 oed ac 16 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn fyfyrwyr amser llawn (46 y cant, o gymharu â 30 y cant o gyflogeion amser llawn, 22 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig a 14 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/yn barhaol heb waith).
- Yn rhentwyr preifat (38 y cant, o gymharu â 26 y cant o rentwyr cymdeithasol a 22 y cant o berchenogion eiddo)

3.25 Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr (52 y cant) yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

3.26 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor:

- Yn 35-54 oed (57 y cant, o gymharu â 46 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- O aelwydydd un oedolyn (61 y cant, o gymharu â 50 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd lle roedd cyplau yn byw gyda dibynyddion).
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (65 y cant, o gymharu â 48 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael disgowntiau na gostyngiadau).

3.27 Roedd tua tri o bob pump ymatebydd (58 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad bod eu biliau treth gyngor yn anodd i'w deall. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws talu'r dreth gyngor a deiliadaeth eiddo.

3.28 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod eu bil treth gyngor yn anodd i'w ddeall:

- Yn 16-34 oed (46 y cant, o gymharu â 33 y cant o'r rhai 35-54 oed a 29 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn cael disgownt neu ostyngiad (40 y cant, o'i gymharu â 33 y cant o'r rhai a oedd yn talu eu treth gyngor yn llawn)
- Yn rhentwyr cymdeithasol (50 y cant, o gymharu â 29 y cant o berchenogion eiddo)

3.29 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu biliau treth gyngor yn anodd i'w deall:

- Wedi ymddeol (74 y cant, o gymharu â 55 y cant o gyflogeion amser llawn, 54 y cant o gyflogeion rhan-amser, 49 y cant o'r ymatebwyr di-waith a 30 y cant o fyfyrwyr amser llawn).
- Yn berchenogion eiddo (65 y cant, o gymharu â 52 y cant o rentwyr preifat, 42 y cant o rentwyr cymdeithasol a 12 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn eiddo rhanberchnogaeth).

3.30 Mewn perthynas â'r gosodiad ynghylch a yw biliau treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref, roedd oddeutu dau o bob pump o'r ymatebwyr (43 y cant) yn cytuno eu bod yn ei adlewyrchu. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws talu'r dreth gyngor, strwythur aelwydydd a deiliadaeth eiddo.

3.31 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref:

- Yn 16-34 oed (43 y cant, o gymharu â 34 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn rhentwyr preifat (51 y cant, o gymharu â 38 y cant o berchenogion aelwydydd a 35 y cant o rentwyr cymdeithasol)
- Yn rhai a dalodd eu treth gyngor yn llawn (41 y cant, o'i gymharu â 33 y cant a oedd yn derbyn disgownt neu ostyngiad)
- Yn byw mewn aelwydydd gyda dau neu fwy o oedolion a dibynyddion (48 y cant, o gymharu â 37 y cant o aelwydydd gyda dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 31 y cant o oedolion a oedd yn byw ar eu pen eu hunain).


3.32 Mae'n werth nodi bod bron i un o bob pum ymatebydd (18 y cant) wedi rhoi'r ateb ‘ddim yn gwybod’ mewn ymateb i'r gosodiad olaf hwn.

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd bron i ddau draean nad oedd yn glir iddyn nhw sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros y dreth gyngor.

3.33 Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres bellach o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor:

- Mae system y dreth gyngor yn deg.
- Rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol.
- Mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu.
- Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.
- Nid yw'n glir i mi sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario

**Ffigur 9: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

Mae ‘Cytuno’ yn cyfuno'r ymatebion ‘Cytuno'n Gryf’ a ‘Cytuno’. Mae ‘Anghytuno’ yn cyfuno'r ymatebion ‘Anghytuno'n Gryf’ ac ‘Anghytuno’.

3.34 Fel y dangosir yn Ffigur 9, roedd oddeutu tri o bob pump (61 y cant) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r gosodiad bod system y dreth gyngor yn deg. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran, incwm a statws talu'r dreth gyngor.

3.35 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn deg:

- Yn ddynion (31 y cant, o gymharu â 22 y cant o fenywod)
- Yn 16-34 oed (36 y cant, o gymharu â 23 y cant o'r rhai 35-54 oed a 23 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn ennill dros £75,000 y flwyddyn (43 y cant, 25 y cant yn ennill £20,000-£29,999, 23 y cant yn ennill £50,000-£74,999, 23 y cant yn ennill llai na £9,999 a 17 y cant yn ennill £10,000-£19,999).

3.36 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn deg:

- Yn bobl a oedd yn talu'r dreth gyngor yn llawn (64 y cant) ac yn bobl a oedd yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (56 y cant), o gymharu â 49 y cant o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor.

3.37 Roedd y mwyafrif (65 y cant) o'r ymatebwyr hefyd yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran, statws anabledd a deiliadaeth eiddo.

3.38 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol:

- Yn fenywod (70 y cant, o gymharu â 58 y cant o ddynion)
- Yn berchenogion aelwydydd (68 y cant, o gymharu â 61 y cant o rentwyr cymdeithasol a 58 y cant o rentwyr preifat).
- Yn talu bil treth gyngor yn llawn (68 y cant, o gymharu â 60 y cant o'r rheini sy'n cael disgownt neu ostyngiad a 47 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn talu'r dreth gyngor).
- Yn 35-54 oed (71 y cant) ac yn 55+ oed (66 y cant, o gymharu â 54 y cant o'r rhai 16-34 oed).

3.39 Roedd ymatebwyr nad oeddent yn ystyried eu hunain yn anabl yn fwy tebygol o gytuno eu bod wedi gweld buddion y dreth gyngor yn cael ei fuddsoddi yn y gymuned na'r rhai a nododd fod ganddynt anabledd (29 y cant o'i gymharu â 22 y cant yn y drefn honno)

3.40 Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr (46 y cant) yn cytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws gweithio, rhanbarth, graddfa gymdeithasol a statws talu'r dreth gyngor.

3.41 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- Yn bobl wedi ymddeol neu yn barhaol heb waith (54 y cant, o gymharu â 43 y cant o gyflogeion amser llawn, 36 y cant o gyflogeion rhan-amser a 30 o fyfyrwyr)

- Yn byw yn y Cymoedd (51 y cant, o'i gymharu â 38 y cant o'r rheini sy'n byw yng Ngogledd Cymru)

3.42 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- Yn 16-34 oed (46 y cant) ac yn 35-54 oed (36 y cant, o gymharu â 27 y cant o ymatebwyr 55+ oed)
- Yn talu bil treth gyngor yn llawn neu'n cael gostyngiadau (37 y cant, o gymharu â 17 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn talu'r dreth gyngor).
- Graddfa gymdeithasol C2 (44 y cant, o'i gymharu â 34 y cant o'r ymatebwyr yng ngraddfa gymdeithasol AB, 35 y cant yng ngraddfa gymdeithasol C1 a 30 y cant yng ngraddfa gymdeithasol DE.

3.43 Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (41 y cant) yn anghytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor, gyda 27 y cant yn ateb, 'ddim yn gwybod'. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran, statws gweithio a deiliadaeth eiddo.

3.44 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:

- Yn 16-34 oed (41 y cant, o gymharu â 31 y cant o'r rhai 35-54 oed a 27 y cant o'r rhai 55+ oed)

3.45 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:

- Yn ddynion (44 y cant, o gymharu â 37 y cant o fenywod)
- Wedi ymddeol (52 y cant, o gymharu â 38 y cant o gyflogeion amser llawn a 33 o fyfyrwyr)
- Yn berchenogion eiddo (44 y cant, o gymharu â 31 y cant o rentwyr preifat).

3.46 Roedd tua tri o bob pump o'r holl ymatebwyr (61 y cant) yn cytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws gweithio, incwm, strwythur aelwydydd, statws talu'r dreth gyngor a graddfa gymdeithasol.

3.47 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:

- Yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 y flwyddyn (66 y cant) a rhwng £50,000 a £74,999 (63 y cant, o'i gymharu â 46 y cant o'r rhai sy'n ennill llai na £9,999)
- Ym mand treth gyngor A (73 y cant) o'i gymharu â 62 y cant yn byw ym mand D, 55 y cant yn byw ym mandiau E, F, G, H ac I a 49 y cant yn byw ym mand B)


3.48 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:

- Yn 55+ oed (38 y cant, o gymharu â 30 y cant o'r ymatebwyr 16-34 oed)
- Wedi ymddeol (45 y cant, o gymharu â 32 y cant o gyflogeion amser llawn a 33 o gyflogeion rhan-amser)
- Yng ngraddfa gymdeithasol AB (39 y cant) neu C1 (37 y cant, o'i gymharu â 29 y cant o'r rhai yng ngraddfa gymdeithasol DE)
- Yn byw gyda dau neu fwy o oedolion a dibynyddion (66 y cant, o'i gymharu â 56 y cant o aelwydydd gydag un oedolyn)

| |
|---|
| Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel. Pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei le neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon. |

3.49 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a oedd yn talu'r dreth gyngor, yn seiliedig ar eu hincwm a'u gwariant, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr (63 y cant) fod eu bil treth gyngor yn 'rhy uchel' (Ffigur 10).

**Ffigur 10: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?**




Sylfaen: 915 o ymatebwyr

3.50 Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, statws gweithio, incwm, rhanbarth, graddfa gymdeithasol, statws talu'r dreth gyngor, strwythur aelwydydd, deiliadaeth a band y dreth gyngor.

3.51 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn 'rhy uchel':

- Ym mandiau E, F, G, H neu I y dreth gyngor (75 y cant, o gymharu â 62 y cant ym mand D, 58 y cant ym mand C a 54 y cant ym mand A).


- Yn byw yng ngorllewin de Cymru (75 y cant, o'i gymharu â 63 y cant yng ngogledd Cymru, 60 y cant yng Nghaerdydd a de ddwyrain Cymru a 57 y cant yn y Cymoedd)
- Yn berchenogion cartrefi (67 y cant, o gymharu â 53 y cant o rentwyr preifat)
- Yn talu'r dreth gyngor yn llawn (66 y cant, o'i gymharu â 57 y cant o'r rhai a gafodd ddisgownt neu ostyngiad)
- Yn byw mewn cartref gyda dau neu fwy o oedolion a dibynyddion (69 y cant, o'i gymharu â 52 y cant o aelwydydd un oedolyn)

3.52 Roedd ymatebwyr a oedd yn llai tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn ‘rhy uchel’:

- Yn 16-34 oed (51 y cant, o gymharu â 67 y cant o'r ymatebwyr 35-54 oed a 69 y cant o'r ymatebwyr 55+ oed)
- Yn ddi-waith (52 y cant, o gymharu â 67 y cant o gyflogeion amser llawn, 65 y cant o gyflogeion rhan-amser, 63 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol)
- Yn ennill llai na £9,999 y flwyddyn (76 y cant, o gymharu â 71 y cant o'r rhai a oedd yn ennill rhwng £20,000 a £29,999)
- Yng ngraddfa gymdeithasol AB (55 y cant o'i gymharu â 65 y cant o'r rhai yn C1 a 66 y cant o'r rhai yn C2 a DE).

3.53 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a roddodd yr ateb ‘rhy uchel’ pam roeddent wedi dweud hynny a chafodd atebion tebyg eu grwpio ynghyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin (16 y cant) oedd ei bod yn ‘ddrud iawn/rhy uchel’. Dywedodd tua un rhan o ddeg o'r ymatebwyr fod gwasanaethau'n wael, a dywedodd nifer debyg (9 y cant) ei fod yn werth gwael am arian (Tabl 4).

**Ffigur 11: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) y tri phrif ymateb i Pam ydych chi'n dweud hyn?**




Sylfaen: 2386 o ymatebwyr

3.54 Pan ofynnwyd iddynt nodi pam y rhoesant yr ateb yn ffigur 10, y tri rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd ar draws yr holl ymatebion ers 2022 oedd bod y dreth gyngor yn ddrud iawn, ei bod yn swm teg a'i bod yn anodd ei fforddio (Ffigur 11).

3.55 Roedd cynnydd arwyddocaol yn nifer yr ymatebwyr a nododd fod eu treth gyngor yn ddrud iawn neu'n rhy uchel rhwng 2022 (7 y cant) a 2023 (14 y cant).

**Tabl 4: ‘Rhy uchel’ – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb ‘rhy uchel’** |
|---|---|
| Drud iawn/rhy uchel | 22 |
| Mae gwasanaethau yn wael | 13 |
| Gwerth gwael am arian | 10 |
| Alla i ddim ei fforddio/mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn a gwariant arall | 9 |
| Wedi cynyddu cryn dipyn yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 9 |
| Ar incwm isel/ddim yn ennill digon o gyflog/yn cael budd-daliadau | 9 |
| Mae costau byw yn cynyddu | 5 |
| Ddim yn gweld unrhyw fudd yn deillio ohoni / ddim yn defnyddio/cael unrhyw wasanaethau | 5 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd yn deillio ohoni / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 5 |
| Mae arian yn cael ei wastraffu/mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel/gormod o dreuliau | 5 |
| *Arall* | 1 |
| Nid yw'n adlewyrchu incwm/dylai adlewyrchu lefel yr incwm | 3 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 6 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Un o'n biliau mwyaf, rhan fawr o'n gwariant | |
| Pensiynwyr ydyn ni | |
| Talu gormod o dreth / gormod o drethi eisoes | |

Sylfaen: 580 o ymatebwyr

3.56 Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (24 y cant) fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn ‘agos at ei le’ (Ffigur 10). Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl incwm, rhanbarth, graddfa gymdeithasol, deiliadaeth, statws anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

3.57 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn ‘agos at ei lle’:

- Yn rhentwyr preifat (35 y cant, o gymharu â 21 y cant o berchenogion cartrefi)
- Heb anabledd (26 y cant, o'i gymharu â 18 y cant o'r rhai â salwch cyfyngol, problem iechyd neu anabledd)
- Yng ngraddfa gymdeithasol AB (32 y cant, o'i gymharu â 18 y cant o'r rhai yn DE). Yn derbyn disgownt neu ostyngiad (33 y cant, o'i gymharu â 21 y cant o'r rhai a dalodd yn llawn)

- Yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (40 y cant, o gymharu â 21 y cant o'r rhai a oedd yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 20 y cant a oedd yn ennill £10,000 a £19,999, 19 y cant a oedd yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 5 y cant a oedd yn ennill llai na £9,999).
- Y rhai sy'n derbyn disgownt neu ostyngiad yn y dreth gyngor (33 y cant o'i gymharu â 21 y cant o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn)

3.58 Roedd ymatebwyr a oedd yn llai tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn ‘agos at ei lle’:

- Ym mandiau E, F, G, H neu I y dreth gyngor (19 y cant, o gymharu â 32 y cant ym mand A a 28 y cant ym mand D).
- Yng ngorllewin de Cymru (14 y cant, o'i gymharu â 23 y cant yng ngogledd Cymru, 24 y cant yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, 32 y cant yn y Cymoedd a 25 y cant yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru.
- Yn byw mewn cartref gyda dau neu fwy o oedolion a dibynyddion (18 y cant, o'i gymharu â 27 y cant o oedolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain, a 25 y cant o aelwydydd ag oedolion lluosog heb ddibynyddion)

3.59 Ymhlith y 238 o ymatebwyr a roddodd yr ateb, ‘yn agos at ei le’, yr esboniad mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer yr ateb hwn oedd ei fod yn swm teg neu ei fod yn ymddangos yn rhesymol (31 y cant). Nododd un o bob pum ymatebydd (22 y cant) fod y dreth yn ‘agos at ei lle’ am eu bod yn gallu fforddio ei thalu ac roedd 16 y cant yn ymwybodol o'i chyfraniad at wasanaethau (Tabl 5).

**Tabl 5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle' |
|---|---|
| Mae'n deg/swm teg/mae'n ymddangos yn rhesymol | 40 |
| Yn gallu ei fforddio | 16 |
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau | 9 |
| Mae'n adlewyrchu eu heiddo/yr ardal lle rydym yn byw | 9 |
| Nid yw'n rhy uchel nac yn isel | 6 |
| Oherwydd gostyngiad / Help i dalu | 6 |
| *Arall* | 3 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Drud iawn / rhy uchel | |
| Mae'n adlewyrchu incwm/seiliedig ar incwm | |
| Mae gwasanaethau yn dda/mae'r ardal yn cael ei chynnal yn dda | |

Sylfaen: 219 o ymatebwyr


3.60 Rhoddodd oddeutu un o bob 10 ymatebydd (15 y cant) yr ateb 'ddim yn gwybod' pan gawsant eu holi am swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu.

3.61 Wedyn, cafodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg rywfaint o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru:

> *Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill.*


3.62 Wedyn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr, yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor y mae disgwyl i'w aelwyd ei dalu. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' (54 y cant, o gymharu â 63 y cant cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod y swm y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'agos at ei le' (29 y cant, o gymharu â 24 y cant cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, nododd tri y cant o'r ymatebwyr fod y swm roedd disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy isel' (Ffigur 12).

**Ffigur 12: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?**




Sylfaen: 915 o ymatebwyr

**Ffigur 13: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?**




Sylfaen: 2736 o ymatebwyr

3.63 Mae Tablau 6, 7 ac 8 yn cyflwyno'r ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr pam roeddent wedi nodi bod eu treth gyngor yn ‘rhy uchel’, ‘yn agos at ei lle’ neu'n ‘rhy isel’ ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno.

**Tabl 6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – ‘Rhy uchel’ – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb ‘rhy uchel’ |
|---|---|
| Mae gwasanaethau yn wael | 23 |
| Drud iawn/rhy uchel | 18 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd yn deillio ohoni / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 10 |
| Mae arian yn cael ei wastraffu/mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel/gormod o dreuliau | 9 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 8 |
| Gwerth gwael am arian | 7 |
| Wedi cynyddu cryn dipyn yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 7 |
| Alla i ddim ei fforddio/mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall | 6 |
| Ddim yn gweld unrhyw fudd yn deillio ohoni / ddim yn defnyddio neu'n cael unrhyw wasanaethau | 5 |
| *Arall* | 3 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Ar incwm isel/ddim yn ennill digon o gyflog/yn cael budd-daliadau | |
| Nid yw'n adlewyrchu maint, gwerth fy eiddo | |
| Ddim yn gweld digon o fudd yn deillio ohoni/ddim yn defnyddio/cael digon o wasanaethau | |

Sylfaen: 580 o ymatebwyr

3.64 Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a nododd bod y dreth gyngor yn ‘rhy uchel’ yn ymwneud â fforddiadwyedd yn ogystal â chanfyddiadau o wasanaethau. O'r 490 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn ‘rhy uchel’, nododd tua chwarter (23 y cant) fod gwasanaethau yn wael, nododd un o bob deg o ymatebwyr (8 y cant) bod gwasanaethau yn cael eu torri, a nododd 7 y cant bod y dreth gyngor yn cynnig gwerth gwael am arian (Tabl 6).

### Tabl 7: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle' |
|---|---|
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau | 43 |
| Mae'n deg/swm teg/mae'n ymddangos yn rhesymol | 34 |
| *Arall* | 3 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Yn gallu ei fforddio | |
| Mae gwasanaethau yn dda/mae'r ardal yn cael ei chynnal yn dda | |
| Mae'n adlewyrchu ein heiddo/yr ardal lle rydym yn byw | |

Sylfaen: 261 o ymatebwyr

3.65 O'r 261 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'agos at ei lle', nododd 43 y cant fod y dreth gyngor yn 'talu am lawer o wasanaethau lleol/yn deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/bod angen ariannu gwasanaethau' (Tabl 7).

### Tabl 8: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy isel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy isel' [a] |
|---|---|
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau | 61 |
| Mae gwasanaethau yn wael | 21 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 11 |
| Mae arian yn cael ei wastraffu / mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel /gormod o dreuliau | 5 |
| *Arall* | 4 |
| **Y ddau ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae'n deg / swm teg / mae'n ymddangos yn rhesymol | |
| Nid yw'n adlewyrchu maint, gwerth fy eiddo | |

Sylfaen: 25 o ymatebwyr


**Agweddau tuag at newid**

| |
|---|
| Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach. Pan gawsant eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar incwm oedd y system decaf. |

3.66 Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr hefyd roi eu barn ar newidiadau i system bresennol y dreth gyngor ac, yn benodol, a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system wahanol o drethiant lleol. Roedd tua hanner y cyfranogwr (46 y cant) yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall, roedd 15 y cant yn anghytuno a rhoddodd 40 y cant yr ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn (Ffigur 14).

3.67 Roedd cynnydd arwyddocaol yng nghanran yr ymatebwyr a gytunodd y dylid disodli'r dreth gyngor gyda system wahanol o drethiant lleol rhwng 2023 (39 y cant) a 2024 (46 y cant) (Ffigur 15).


**Ffigur 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno'.

**Ffigur 15: Yn ôl blwyddyn (2022-2024) i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?**




Sylfaen: 3000 o ymatebwyr

Mae ‘Cytuno’ yn cyfuno'r ymatebion ‘Cytuno'n Gryf’ a ‘Cytuno’. Mae ‘Anghytuno’ yn cyfuno'r ymatebion ‘Anghytuno'n Gryf’ ac ‘Anghytuno’.

3.68 Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran, statws gweithio, band incwm, deiliadaeth, statws anabledd, graddfa gymdeithasol, band y dreth gyngor a statws talu'r dreth gyngor.

3.69 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall:

- Yn ddynion (51 y cant, o gymharu â 41 y cant o fenywod)
- Ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (59 y cant, o gymharu â 45 y cant ym mand D a 44 y cant ym mand C).
- Yn cael disgownt neu ostyngiad (49 y cant, o'i gymharu â 35 y cant o'r rhai nad oedd yn talu'r dreth gyngor o gwbl)

3.70 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall:

- Yn 16-34 oed (18 y cant, o gymharu â 11 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Gradd gymdeithasol AB neu C1 (19 a 17 y cant yn y drefn honno o'i gymharu â 10 y cant o'r rhai yn DE)

- Ddim yn anabl (16 y cant, o'i gymharu â 10 y cant o'r rhai â salwch, problem iechyd neu anabledd cyfyngol)
- Myfyrwyr amser llawn (23 y cant, o'i gymharu â 12 y cant o bobl wedi ymddeol a 10 y cant o weithwyr rhan-amser)
- Yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (30 y cant, o'i gymharu â phob categori arall)
- Yn rhentwyr preifat (19 y cant, o gymharu â 10 y cant o rentwyr cymdeithasol)

3.71 Gofynnwyd i'r 459 o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Nododd tua un o bob pum ymatebydd (18 y cant) y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant arall am fod system y dreth yn annheg a nododd 16 y cant o'r cyfranogwyr y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant arall gan ei fod yn ddiffygiol neu wedi dyddio. Nododd 11 y cant arall y dylai fod yn seiliedig ar incwm neu'r gallu i dalu neu ystyried incwm neu'r gallu i dalu (Tabl 9).

**Tabl 9: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno** |
|---|---|
| Mae'n annheg/er mwyn ei gwneud yn decach | 24 |
| Mae'r system yn ddiffygiol/wedi dyddio/mae angen ei hailwampio/ei hadolygu | 21 |
| Dylai fod yn seiliedig ar/ystyried incwm/y gallu i dalu | 14 |
| Ni ddylai fod yn seiliedig ar eiddo | 10 |
| Mae angen lleihau'r gost/mae angen iddi fod yn rhatach/mae'n rhy ddrud ar hyn o bryd | 9 |
| Dylai fod yn seiliedig ar nifer yr unigolion mewn aelwyd / nid yw'n deg bod aelwydydd llai o faint yn talu'r un swm ag aelwydydd mwy o faint | 6 |
| Dylai fod yn seiliedig ar y gwasanaethau a ddefnyddir | 6 |
| Mae gan ardaloedd gwahanol amodau economaidd gwahanol / mae angen adlewyrchu'r ardal leol | 5 |
| *Arall* | 4 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae angen gweld i ble mae'r arian yn mynd / mwy o dryloywder | |
| Gormod o drethi \ talu gormod o dreth | |
| Dylai fod yn seiliedig ar brawf modd | |

Sylfaen: 459 o ymatebwyr

3.72 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Y rheswm mwyaf cyffredin dros y farn hon, a fynegwyd gan 46 y cant o'r ymatebwyr hyn, oedd bod y system bresennol yn iawn fel y mae ac nad oes angen ei diwygio. Nododd 14 y cant o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw system amlwg i gymryd lle'r dreth gyngor neu nad oeddent yn siŵr beth fyddai'n system well. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (9 y cant) fod y system bresennol yn deg neu ei bod yn hawdd i'w deall a nododd 6 y cant o'r ymatebwyr y byddai newid y system yn cynyddu costau (Tabl 10).

**Tabl 10: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr sy'n anghytuno |
|---|---|
| Mae'r system bresennol yn iawn/yn gweithio/yn iawn fel y mae/nid oes angen ei diwygio | 46 |
| Nid oes unrhyw system amlwg i gymryd ei lle/ddim yn siŵr beth fyddai'n system well | 14 |
| Byddai newid y system yn cynyddu costau | 9 |
| Mae'r system bresennol yn deg | 7 |
| Byddai newid yn ychwanegu cymhlethdod / yn anodd ei ddeall | 7 |
| Mae'r system bresennol yn iawn ond mae angen ei diwygio, mae angen adolygu'r bandiau/prisiau eiddo | 6 |
| Byddai angen gwybod mwy am unrhyw system newydd | 6 |
| Nid oes yr un system yn berffaith / rhoddwyd cynnig ar systemau eraill yn y gorffennol | 5 |
| *Arall* | 3 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae'n hawdd ei deall / mae pawb yn ei deall | |
| Dylai fod yn seiliedig ar nifer yr unigolion mewn aelwyd / nid yw'n deg bod aelwydydd llai o faint yn talu'r un swm ag aelwydydd mwy o faint | |
| Rwy'n cofio treth y pen a pha mor wael ydoedd | |

Sylfaen: 145 o ymatebwyr


3.73 Gan adeiladu ar y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bob cyfranogwr ystyried chwe mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a'i sgorio ar raddfa o 1 i 6, gydag 1 yn dynodi'r mesur tecaf a 6 yn dynodi'r mesur lleiaf teg. Y mesurau amgen y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- eich incwm
- y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
- nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo.

- gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo
- dylai pawb dalu'r un swm
- gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo

3.74 Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob mesur amgen, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer tegwch. Yn seiliedig ar y cyfartaledd cymedrig hwn, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.75 ar gyfer tegwch. Ystyriwyd mai system drethiant leol lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y system leiaf teg, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 4.57 ar gyfer tegwch (Ffigur 11).


**Ffigur 16: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg)**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr


3.75 Fel y gwelir yn Ffigur 16, nododd tua dau o bob pump o'r ymatebwyr (41 y cant) mai ‘eich incwm’ oedd y mesur tecaf o system drethiant leol newydd. Nododd un o bob 10 ymatebydd (8 y cant) mai ‘gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo’ oedd y mesur tecaf. Nododd tua hanner yr ymatebwyr (54 y cant) mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y mesur lleiaf teg (Ffigur 13).

**Ffigur 17: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1)**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

**Ffigur 18: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 6)**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr


Nododd yr ymatebwyr mai sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall ddylai fod y nod pwysicaf ar gyfer system drethiant leol newydd.

3.76 Gan adeiladu ar beth fyddai'r mesur tecaf o system drethiant leol newydd, gofynnwyd i bob un o'r cyfranogwyr roi eu barn ynglŷn â beth yw nodau pwysicaf trethiant lleol. Cafodd y cyfranogwyr bum nod i'w hystyried a'u sgorio ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi ‘ddim yn bwysig o gwbl’ a 10 yn dynodi ‘cwbl hanfodol’.

- Dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu.
- Dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda.
- Dylai systemau talu fod yn syml.
- Dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol.
- Dylid casglu trethi lleol yn effeithlon.
- Dylai trethi lleol fod yn glir ac yn hawdd i'w deall.

3.77 Fel uchod, defnyddiwyd yr ymatebion i gyfrifo sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd. Yn seiliedig ar y mesur hwn, roedd y canlyniadau yn dangos mai nod pwysicaf trethiant lleol, yn ôl yr ymatebwyr, oedd sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall (sgôr gyfartalog gymedrig o 8.61 ar gyfer pwysigrwydd). Y nod o sicrhau bod biliau treth lleol yn adlewyrchu'r gallu i dalu a gafodd y sgôr gyfartalog gymedrig isaf ar gyfer pwysigrwydd, sef 7.85, ond nid oedd y sgôr honno ond 0.76 yn is na'r sgôr uchaf, sy'n dangos nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng y sgoriau cyfartalog cymedrig ar gyfer pwysigrwydd a roddwyd i'r pum nod (Ffigur 19).


**Ffigur 19: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol)**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

3.78 Fel y gwelir yn Ffigur 19, nododd tua hanner yr ymatebwyr (46 y cant) fod y gosodiad ‘dylai systemau talu fod yn glir ac yn hawdd i'w deall’ yn gwbl hanfodol, tra nododd un o bob tri ymatebydd (33 y cant) fod y gosodiad ‘dylai biliau treth lleol adlewyrchu’r gallu i dalu’ yn gwbl hanfodol.

**Ffigur 20: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol'**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

**Cael gwybodaeth am y dreth gyngor**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gallu cael gwybodaeth am eu treth gyngor yn hawdd ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael yr wybodaeth hon drwy ddefnyddio gwefan cyngor lleol.


3.79 Yn rhan olaf yr arolwg, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi sut roeddent yn cael gwybodaeth am y dreth gyngor. Gofynnwyd i bob cyfranogwr nodi sut mae wedi cael gwybodaeth am ei dreth gyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gallai hyn gynnwys ymholiad ynglŷn â'i fil, holi am ddisgowntiau, rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau, canfod sut mae ei dreth gyngor yn cael ei wario neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor. Cafodd y cyfranogwyr saith categori i ddewis ohonynt, sef:

- Gwefan cyngor lleol
- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Ffonio'r cyngor lleol
- Anfon llythyr i'r cyngor lleol
- Gwefan arall

- Arall
- Dim un o'r uchod.

3.80 Fel y gwelwyd yn Ffigur 21, dywedodd oddeutu dau o bob pump o'r ymatebwyr (42 y cant) eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan cyngor lleol. Nododd 43 y cant nad oeddent wedi defnyddio'r un o'r uchod. O blith gweddill yr ymatebwyr, nododd tua un o bob pump ymatebydd (18 y cant) eu bod yn defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru neu eu bod wedi ffonio'r cyngor lleol (16 y cant). Dim ond 5 y cant o'r ymatebwyr a anfonodd lythyr i gyngor lleol er mwyn cael gwybodaeth. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, statws gweithio, incwm, deiliadaeth eiddo, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

**Ffigur 21: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor?**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr

3.81 Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth gan ddefnyddio gwefan cyngor lleol:

- O Ganolbarth/Gorllewin Cymru (50 y cant, o gymharu â 38 y cant yng ngorllewin de Cymru)
- Yn 35-54 oed (49 y cant, o gymharu â 39 y cant o'r ymatebwyr 55+ oed)

- O aelwydydd un oedolyn (49 y cant, o'i gymharu â 38 y cant o aelwydydd â dau neu fwy o oedolion a dibynyddion)
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (51 y cant, o gymharu â 40 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn talu eu biliau treth gyngor yn llawn a 35 y cant nad oeddent yn talu'r dreth gyngor)

3.82 Roedd y rhai a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth gan ddefnyddio gwefan Llywodraeth Cymru:

- Yn 16-34 oed (34 y cant, o gymharu â 15 y cant o'r ymatebwyr 35-54 oed a 10 y cant o'r ymatebwyr 55+ oed)
- Yn rhentwyr preifat (26 y cant, o gymharu â 16 y cant o berchenogion eiddo)
- Oedolion unigol sy'n byw gyda dibynyddion (28 y cant, o'i gymharu â 16 y cant o gyplau neu ddau neu fwy o bobl sy'n byw heb ddibynyddion)


3.83 Roedd y rhai a oedd yn llai tebygol o gael gwybodaeth gan ddefnyddio gwefan Llywodraeth Cymru:

- Wedi ymddeol (10 y cant) neu yn ddi-waith (12 y cant o gymharu â 23 y cant o gyflogeion amser llawn, 26 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig a 34 y cant o fyfyrwyr)
- Yn ennill llai na £9,999 y flwyddyn (5 y cant, o'i gymharu â phob categori arall)

3.84 Gofynnodd rhan olaf yr arolwg i'r cyfranogwyr pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol, gwefan Llywodraeth Cymru neu'r wefan arall a ddefnyddiwyd ganddynt.

3.85 Fel y dangosir yn Ffigur 22, roedd yn hawdd i'r mwyafrif o'r ymatebwyr gael gwybodaeth am eu treth gyngor. Nododd tua phedwar o bob pum ymatebydd ei bod yn hawdd cael gwybodaeth ar wefan y cyngor lleol (78 y cant) a gwefan Llywodraeth Cymru (77 y cant).

**Ffigur 22: Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall?**




Sylfaen: 423 o ymatebwyr

## 4. Casgliadau

- Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai a nododd nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani.
- Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd biniau a chasglu gwastraff, plismona neu gynnal a chadw ffyrdd.
- Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor, eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor.
- Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr nad oedd yn glir iddyn nhw sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario.
- Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.
- Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel.
- Fodd bynnag, pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei le neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon.
- Roedd oddeutu hanner yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach, ac roedd oddeutu un o bob deg yn anghytuno. Roedd tua dau o bob pump o'r holl ymatebwyr yn ansicr a ddylid disodli'r system bresennol â system drethiant leol wahanol. Pan gafodd yr ymatebwyr eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf.

- O ran beth ddylai nodau system drethiant leol newydd fod, nododd yr ymatebwyr mai'r nod pwysicaf yw sicrhau bod systemau talu yn glir ac yn hawdd i'w deall.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn defnyddio gwefan eu cyngor lleol i gael gwybodaeth am eu treth gyngor.
- Roedd yn hawdd i'r mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd wedi defnyddio gwefan cyngor lleol, gwefan Llywodraeth Cymru neu wefan arall gael gwybodaeth am eu treth gyngor.
- Roedd cynnydd arwyddocaol yn nifer yr ymatebwyr a nododd fod eu treth gyngor yn ddrud iawn neu'n rhy uchel rhwng camau 2022 a 2023 yr arolwg.
- Ar ôl cael gwybod am y gwasanaethau y mae treth gyngor yn eu hariannu, roedd ymatebwyr yng ngham 2024 yn dal yn fwy tebygol o adrodd bod y dreth gyngor yn “rhy uchel” o gymharu ag yn 2023.
- Roedd cynnydd arwyddocaol yng nghanran yr ymatebwyr a gytunodd y dylid disodli'r dreth gyngor gyda system wahanol o drethiant lleol rhwng 2023 a 2024.

# Atodiad A: Methodoleg

## Arolwg Omnibws Cymru

4.1 Bwriedir i sampl Omnibws gynrychioli'r boblogaeth o oedolion sy'n preswylio yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd. Cwblhawyd y cyfweliadau gan yr ymatebwyr eu hunain ac fe'u cynhaliwyd gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint.

4.2 Mae llwyfan Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae sawl gwiriad ansawdd data wedi'u hymgorffori yn system Cint gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA ar adeg cofrestru, rhif adnabod unigryw ymatebydd a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Yn ogystal â hyn, mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

4.3 Roedd yr arolwg yn destun rheolaethau cwota demograffig plethedig ar gyfer oedran o fewn rhyw. Pennwyd rheolaeth gwota arall ar wahân ar gyfer graddfa gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweliadau â thrigolion o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru.

4.4 Cyfluniwyd arolygon ar-lein i'w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen neu ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd. Gwnaed gwaith maes ar gyfer arolwg mis Mawrth 2024 rhwng 26 Chwefror a 17 Mawrth 2024. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cwblhau a'u dadansoddi.

4.5 Mae data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, grŵp Awdurdodau Lleol a gradd gymdeithasol er mwyn iddynt gyd-fynd â ffigurau Cyfrifiad 2021 a sicrhau eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion (16+) yng Nghymru yn llawn.

4.6 Mae talgrynnu rhifyddol i rifau cyfain yn golygu nad yw cyfanswm y ffigurau mewn colofnau canrannau, o reidrwydd, yn cyfateb yn union i 100%. Lle y gellir rhoi mwy nag un ateb i gwestiwn, efallai y bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%. Mae 0 yn dynodi sampl wedi'i phwysoli o lai na 0.5 ac mae 0% yn dynodi canran o lai na 0.5%. Lle mae bo sylfaen colofnau yn llai na 50, mae angen dehongli canrannau yn ofalus.

4.7 Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth.

| Enw'r Newidyn | Disgrifiad |
|---|---|
| **Rhanbarth** | |
| Gogledd Cymru | Y rhai sy'n byw yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd |
| Canolbarth/Gorllewin Cymru | Y rhai sy'n byw ym Mhowys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro |
| Gorllewin De Cymru | Y rhai sy'n byw yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cymoedd De Cymru | Y rhai sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | Y rhai sy'n byw yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Casnewydd |
| **Oedran** | |
| 16-24 | |
| 25-34 | |
| 35-44 | |
| 45-54 | |
| 55-64 | |
| 65+ | |
| | |
| 16-34 | |
| 35-54 | |
| 55+ | |
| **Gradd Gymdeithasol** | |
| AB | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol A neu B |

| | |
|---|---|
| C1 | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C1 |
| C2 | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C2 |
| DE | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol D neu E |
| ABC1 | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol A neu B neu C1 |
| C2DE | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C2 neu D neu E |
| **Statws Gwaith** | |
| Cyflogai amser llawn | Y rhai sy'n gyflogeion amser llawn (mwy na 30 awr yr wythnos) |
| Cyflogai rhan-amser | Y rhai sy'n gyflogeion rhan-amser (30 awr neu lai yr wythnos) |
| Hunangyflogedig | Y rhai sy'n hunangyflogedig |
| Di-waith/yn chwilio am waith | Y rhai sy'n ddi-waith neu'n chwilio am waith |
| Myfyriwr amser llawn | Y rhai sy'n fyfyrwyr amser llawn |
| Wedi ymddeol yn llwyr / yn barhaol heb waith | Pobl sydd wedi ymddeol yn gyfan gwbl neu bobl eraill nad ydynt yn gweithio (e.e. gofalwr, gofalu am deulu) |
| **Bandiau Incwm** | |
| Llai na £9,999 | |
| £10,000-£19,999 | |
| £20,000-£29,999 | |

| | |
|---|---|
| £30,000-£49,999 | |
| £50,000-£74,999 | |
| £75,000+ | |
| Gwell gennyf beidio â dweud/ddim yn gwybod | |
| **Deiliadaeth** | |
| Yn berchen ar yr eiddo (â morgais neu hebddo) | Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno (â morgais neu hebddo) |
| Rhentu eiddo cymdeithasol | Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan y cyngor lleol neu gymdeithas dai |
| Rhentu eiddo preifat | Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan landlord preifat |
| Rhanberchnogaeth | Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol |
| **Statws Anabledd** | |
| Oes | Y rhai sydd â salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith a wnânt |
| Nac oes | Y rhai NAD oes ganddynt salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith a wnânt |
| **Strwythur yr aelwyd** | |
| Un oedolyn sy'n byw ar ei ben ei hun | |
| Un oedolyn sy'n byw gyda dibynyddion | |
| Cwpl neu ddau oedolyn neu fwy sy'n byw heb ddibynyddion | |

| | |
|---|---|
| Cwpl neu ddau oedolyn neu fwy sy'n byw gyda dibynyddion | |
| Sefyllfa arall/heb ei nodi | |
| **Talu'r Dreth Gyngor** | |
| Ydy – yn llawn | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn |
| Ydy – yn cael disgownt/gostyngiad | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n talu swm gostyngol o'r dreth gyngor |
| Nac ydy | Y rhai sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn talu'r dreth gyngor |
| **Band Cyngor** | |
| A | Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand A y dreth gyngor (y band isaf) |
| B | Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand B y dreth gyngor |
| C | Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand C y dreth gyngor |
| D | Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand D y dreth gyngor |
| E, F, G, H, I | Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mandiau E neu F neu G neu H neu I (y bandiau uchaf) |
| Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr | Y rhai nad ydynt yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor y maent |

## Atodiad B

<u>Adran 1 – Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor</u>

1. Ydych chi neu unrhyw un yn eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor?
    - Ydw
    - Nac ydw

1a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich cyfrifoldeb am dalu treth gyngor eich aelwyd?

- Cyfrifoldeb llwyr
- Cyd-gyfrifoldeb
- Dim cyfrifoldeb, mae rhywun arall ar yr aelwyd yn ei thalu

1b. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor?

- Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 oed
- Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyrwyr
- Mae pob aelod o'r aelwyd yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed
- Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor
- Arall, nodwch:

(Neidiwch dros gwestiynau 2, 3, 3a 4, 4a, 7, 9, 9a, 10, 10a)

2. Beth yw eich band treth gyngor?
    - A (Isaf)
    - B
    - C
    - D
    - E
    - F
    - G
    - H
    - I (Uchaf)
    - Ddim yn siŵr

3. Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

3a. Pa ddisgowntiau, esemptiadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?

4. Sut mae eich aelwyd yn talu'r dreth gyngor?
    - Yn wythnosol
    - Yn fisol dros 10 mis
    - Yn fisol dros 12 mis
    - Yn flynyddol

4a. Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu bob wythnos/mis/blwyddyn? [Dilëwch fel y bo'n briodol, yn dilyn yr ymateb i C4]

<u>Adran 2 – Gwybodaeth am y dreth gyngor ac agweddau tuag ati</u>

5. Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?
    - Llawer iawn
    - Eithaf tipyn
    - Ychydig iawn
    - Dim byd o gwbl

6. Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?

7. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol:
    - Mae talu'r dreth gyngor yn broses syml
    - Dydw i ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor
    - Rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael
    - Mae'n anodd deall fy mil treth gyngor
    - Mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno

- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf

8. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol:
   - Mae system y dreth gyngor yn deg
   - Rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol
   - Mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu
   - Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor
   - Nid yw'n glir i mi sut mae’r dreth gyngor yn cael ei gwario

   - Cytuno’n gryf
   - Cytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno’n gryf

9. Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?
   - Rhy uchel
   - Yn agos at ei le
   - Rhy isel

9a. Pam ydych chi'n dweud hyn?

10. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill.
    Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch aelwyd ei dalu?

    - Rhy uchel
    - Yn agos at ei le
    - Rhy isel

10a. Pam ydych chi'n dweud hyn?

Adran 3 – Agweddau tuag at newid

11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

11a. Pam ydych chi'n dweud hyn?

12. Pe bai'r system drethu leol yn cael ei newid, pa un o'r canlynol ydych chi’n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Nodwch eich atebion o 1 i 6, gydag 1 fel y mesur tecaf a 6 fel y mesur lleiaf teg.

    - Eich incwm
    - Gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo
    - Y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
    - Gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo
    - Dylai pawb dalu'r un swm
    - Nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo

13. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgoriwch eich ateb ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi ‘ddim yn bwysig o gwbl’ a 10 yn dynodi ‘cwbl hanfodol’.
    - Dylai trethi lleol fod yn glir ac yn hawdd i'w deall
    - Dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu
    - Dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda
    - Dylai systemau talu fod yn syml
    - Dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol
    - Dylid casglu trethi lleol yn effeithlon

Adran 4 – Cael gwybodaeth am y dreth gyngor

14. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor? Gallai hyn gynnwys ymholiad ynglŷn â'ch bil, holi am ddisgowntiau, rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau, canfod sut mae’r dreth gyngor yn cael ei gwario neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor

- Gwefan cyngor lleol
- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Ffonio'r cyngor lleol
- Anfon llythyr i'r cyngor lleol
- Gwefan arall (nodwch)
- Arall (nodwch)
- Dim un o'r uchod

14a. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd
- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod

14b. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd
- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod

14c. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar y wefan arall a ddefnyddiwyd gennych?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd

- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod